**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 7 MAWRTH 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Meinir James, Eifion Jones, Nicola Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Carys Thomas, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Eifion Jones a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af Chwefror 2024.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad y bu 11 o ymweliadau gan y Tîm Gorfodi Sifil rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 a rhoddwyd 4 Rhybudd Talu Cosb. Nodwyd.
4. **FC29/4 Pentrepoeth** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod gwaith wedi'i gytuno i ddarparu seilwaith gwell ar y llwybr gyda gwaith i'w wneud. Nodwyd.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Bydd y Clerc yn wneud ymholiadau mewn perthynas â chae gerllaw'r lleoliad hwn, a oedd i'w weld yn cael ei hysbysebu fel 'Billy's Wild Camping'. Nodwyd.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **Gwylio Cyflymder Cymunedol –** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Jenny Jones a Nicola Jones o'r cyfarfod a fynychwyd mewn perthynas â Gwylio Cyflymder Cymunedol. Roedd yn ymddangos bod angen ymrwymiad mawr i'r broses ac efallai na fyddai'n addas ar gyfer nifer o ffyrdd o amgylch y Gymuned. Nodwyd hefyd mai dim ond 4 gwirfoddolwr oedd yn eu lle. Felly, cytunwyd i beidio â symud ymlaen â'r prosiect ar hyn o bryd.
8. **Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned –** Nododd y Clerc fod y biniau yng nghysgodfannau Bws Bancycapel a Glannant wedi eu symud. Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau eu bod wedi'u tynnu yn dilyn adolygiad o finiau ar draws y Sir ac na fyddent yn cael eu hadnewyddu. Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg ymgynghori ar y mater. Disgwylir gwybodaeth am y cais am fin sbwriel yng Nghapel Rama a Heol y Lan ynghyd â bin newydd yn Penygraig

9. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad.
10. **Materion Llifogydd yng Nghilgadan** – Cynhaliwyd ymweliad safle ar 5[ed] Mawrth 2024, a rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad y byddai 2 gylïau mwy yn cael eu gosod yn y lleoliad. Byddai'r hyn wedyn yn cael ei fonitro fel ateb i'r broblem.
11. **Materion Llifogydd yn y Cymuned -** Yn ystod yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 5[ed] Mawrth, roedd materion yn ymwneud â phyllau dŵr yn ardal Coedlleine / Ystrad Ferthyr hefyd wedi'u trafod ynghyd â'r gwaith draenio sydd i fod i ddigwydd rhwng Cloigyn a Bancycapel.
12. **Gwasanaethau Bws X11** – Derbyniwyd cadarnhad oherwydd toriadau yn y gyllideb gan Lywodraeth Cymru fod y gwasanaethau wedi eu torri ac na fyddent yn cael eu dychwelyd heb arian ychwanegol. Nodwyd.
13. **Archwiliad Cymru** – Roedd Un Llais Cymru wedi awgrymu bod y Cyngor yn gofyn am fanylion y taliadau ar gyfer 2021-22 gan Archwilio Cymru. Roedd y Clerc wedi ysgrifennu i ofyn am y wybodaeth.
14. **Ymyl Ffordd Ty Hir -** Derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir fyddai'r ymyl y ffordd yn cael ei glirio gyda cherrig rhydd yn cael eu gosod yn yr ardal.
15. **Uned goleuo yn 36 Maesglasnant –** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad oedd yr uned goleuo wedi'i mabwysiadu gan y Cyngor ac felly roedd cyfrifoldeb yn parhau gyda'r datblygwr. Cadarnhawyd bod y datblygwr wedi gwneud rhywfaint o waith ers hynny. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: gorchymyn gosod 40mya yn cynnwys cyffordd Llandyfaelog a Bancycapel. Nodwyd byddai Gorchymyn Dim Goddiweddyd ar gyfer Bancycapel yn cael ei gyhoeddi mewn gorchymyn ar wahân yn y dyfodol. Cefnogwyd y cynnig gan y Cyngor.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Cynnig BT i gael gwared ar y ffôn talu cyhoeddus yng Nghwmffrwd. Ystyriodd y Cyngor y mater a chytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ymgynghoriad.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Polisi Ysgolion Cynradd Plant sy'n Codi 4 2025-26. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Ymgynghoriad pellach ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
7. **Un Llais Cymru** – Cynnig o Bortread Am Ddim o'i Fawrhydi'r Brenin i'r Gymuned. Nodwyd.
8. **Coedwig Genedlaethol i Gymru** – Gwybodaeth ariannu ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd dros dro y C2075 yn Llandyfaelog ddydd Llun 18[fed] Mawrth am gyfnod o 3 diwrnod. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd dros dro yr U2231 Cydweli ddydd Iau 18[fed] Ebrill. Nodwyd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd C2073 Croesyceiliog dros dro ar ddydd Llun 22[ain] Ebrill am gyfnod o 2 ddiwrnod. Nodwyd.

12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru –** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2024. Nodwyd.
14. **Un Llais Cymru** – Bwletin Newyddion. Nodwyd.
15. **Menter Cwm Gwendraeth Elli** – Gwybodaeth am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 20ain Chwefror 2024. Nodwyd.
16. **Home Start Cymru** – Gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Nodwyd.
17. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am y Prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Bydd cais y prosiect i wirfoddolwyr gymryd rhan yn y prosiect yn cael ei hysbysebu.
18. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w hystyried gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor Sir. Nodwyd.
19. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
20. **Green GEN Cymru** – Atgoffa o'r Ymgynghoriad ar Barc Ynni Bute Energy Lan Fawr. Nodwyd.
21. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25. Nodwyd.
22. **Y Prosiect Gwleidyddiaeth** – Gwybodaeth am yr ymgyrch Wythnos Cofrestru Pleidleiswyr. Nodwyd.
23. **Llywodraeth Cymru** – Cais am enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2025 y Brenin. Nodwyd.
24. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am y Gynhadledd Gwobrau Cenedlaethol i'w chynnal ar 27ain Mawrth 2024 yn Llanelwedd. Nodwyd.
25. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
26. **Eglwys Llandyfaelog** – Gwahoddiad i gymryd rhan yng Ngŵyl Flodau Pasg yr Eglwys ar y 1af o Ebrill. Cytunwyd i ddarparu arddangosfa ffenestr ar gyfer yr Eglwys. Bydd y Cynghorwyr Nicola Jones, Janet Knott a Jenny Jones yn cefnogi darparu'r arddangosfa.

## 7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

### 1. Diffibrilwyr

a) Nododd y Clerc fod y padiau ar gyfer uned y Llew Coch yn dod i ben ym mis Mawrth. Felly roedd cais wedi'i wneud i'r Gwasanaeth Ambiwlans am rai newydd.
b) Nododd y Clerc pryderon a dderbyniwyd mewn perthynas â'r casys defibrilwyr yng Nghroesyceiliog, Cwmffrwd a Glanmorlais lle'r oedd y drysau'n gadael dŵr i mewn i'r unedau. Ceisir prisiau ar gyfer casys Newydd ar gyfer y Cyfarfod nesaf.

### 2. Coed ar gyfer Cae Idole

Cadarnhaodd y Clerc pryniant 2 goeden gyda gost o £157.98. Roedd y rhain wedi'u plannu fel y cytunwyd yng Nghae Idole. Cytunwyd hyn

3. **Archwiliad Ardal Chwarae**

   Derbyniwyd dyfynbrisiau ar gyfer yr arolygiad ardal chwarae blynyddol fel a ganlyn:

   a. The Play Inspection Company £90.25
   b. ROSPA £90.00
   c. Wicksteed £132.00

Cytunwyd i gadw'r gwasanaeth trwy'r Play Inspection Company.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym misoedd Ionawr a Chwefror gyda chyfanswm cost o £560.00 y mis, cymeradwywyd hyn. Cymeradwywyd cost deunyddiau ar gyfer atgyweirio ffens yn Idole gyda chost o £67.79.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2024**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2024 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin), Blodau (Awst)
- Cystadleuaeth Bwgan Brain – Thema Olympaidd.

Nodwyd bod Paul Temple wedi hysbysu'r Cyngor na fyddai ar gael i dynnu lluniau o'r cystadlaethau. Yn meddwl byddai eisiau ffotograffydd Newydd. Bydd Graham Green yn cael ei wahodd i fod yn feirniad y gystadleuaeth.

**10. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

**1. Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser –** Cytunwyd rhodd o £25.00.
**2. Marie Curie -** Cytunwyd rhodd o £25.00.
**3. Datganodd y Cyng Nicola Jones, Janet Knott a Carys Thomas eu diddordebau a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem - Apêl Gerddi Ysbyty Tywysog Philip -** Cytunwyd i dalu rhodd o £50.00 yn y flwyddyn 2024-25. (Roedd y cais yn ymwneud â digwyddiad codi arian a oedd i'w gynnal ym mis Mehefin).
**4. Cymdeithas Dahlia Gorllewin Cymru –** I'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.
**5. Cymdeithas Aredig Sir Gaerfyrddin –** Dim cyfraniad.

**11. Cynllunio**

1. **PL/07129** - Amrywio Amod 3 ar PL/00750 (Cadw estyniad i lagŵn slyri presennol at ddibenion lles) - Nantygoetre Isaf, Glanyfferi, SA17 5YA. Dim gwrthwynebiadau.
2. **PL/07291** - Llety Gwyliau - White Fields Cottage, Heol Nantyglasdwr, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LS. Dim gwrthwynebiadau.

**12. Cyfrifon**
**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Michael Leefe** **£627.79** Atgyweiriwr Ionawr (gweler eitem 8)
2. **Michael Leefe** **£560.00** Atgyweiriwr Chwefror (gweler eitem 8)
3. **M Gibbard** **£100.00** Glanhau arosfan Croesyceiliog
4. **Arfon Davies** **£157.98** Coed ar gyfer Cae Idole (gweler eitem 7.2)

| **5.** | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Chwefror a costau** | **£722.43** | **£26.00<br>£7.00<br>£25.00<br>£10.50** | **£790.93** | **£298.60** | | **£492.33** |

6. **Marie Curie** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 10.2)
7. **CISS** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 10.1)

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Roedd tyllau yn y ffordd o amgylch ardal Pentrepoeth i Benygraig, ger Ystrad Fawr ac yng Nghapel Rama wedi'u nodi a'u hadrodd i'r Cyngor Sir.
2. Nododd y Cadeirydd fod Jamie Stiles wedi dod yn ail yng ngwobrau Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn Sir Gaerfyrddin.
3. Llongyfarchwyd Luke Davies o Glwb Bowlio Mat Byr Llandyfaelog, a fyddai'n cynrychioli Cymru ar y 10fed Fawrth yn y tîm dan 21.
4. Nododd y Cadeirydd byddai Cinio Blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal ar 19fed Ebrill.
5. Byddai cwis ar gyfer Sioe Llandyfaelog yn cael ei gynnal ddydd Gwener 15fed Mawrth.
6. Nodwyd bod y cyngerdd a gynhaliwyd gan CFfI Llanismel i ddathlu eu penblwydd yn 90 oed wedi bod yn llwyddiant mawr gyda llythyr o longyfarchiadau i'w anfon.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4ydd Ebrill 2024.**